Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MON**
**ISLE OF ANGLESEY CHARITABLE TRUST**

14 Ebrill/April, 2014

At : Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn fel ymddiriedolwr
Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

Annwyl Aelod,

**CYFARFOD O'R YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN**

Gofynnir i chwi fod yn bresennol mewn cyfarfod o'r Ymddiriedolaeth Elusenol Ynys Môn ar ddydd Mawrth, 22 Ebrill 2014 yn Siambr y Cygor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni am 2.00 p.m., i ystyried y materion a nodir yn y rhaglen atodol.

Yr eiddoch yn gywir,

**YSGRIFENNYDD**

To : Members of the Isle of Anglesey County Council as Trustee
of the Isle of Anglesey Charitable Trust

Dear Member,

**MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY CHRITABLE TRUST**

Your attendance is requested at a meeting of the Isle of Anglesey Charitable Trust on Tuesday, 22 April, 2014 to be held at the Council Chamber, Council Offices, Llangefni at 2.00 p.m., to consider the matters noted in the attached agenda.

Yours sincerely,

**SECRETARY**

**Ysgrifennydd/Secretary :** Mr. Richard Parry Jones BA, MA
**Swyddfa'r Sir/County Offices,**
**Llangefni, Ynys Môn. LL77 7TW. Tel: (01248) 750057**

# R H A G L E N

**1** **<u>DATGANIAD O DDIDDORDEB</u>**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2** **<u>COFNODION</u>** (Tudalennau 1 - 4)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mawrth, 2014.

**3** **<u>CAIS AM ARIAN CYFATEBOL AR GYFER GRANT Y GYMUNED EWROPEAIDD MEWN ARDALOEDD GWLEDIG</u>**

Derbyn cyflwyniad gan y Rheolwr Gyfarwyddwr, Menter Môn mewn perthynas â'r uchod.

# Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

## Cofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 20 Mawrth, 2014

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Mr. Victor Hughes (Cadeirydd)<br>Mr. A M Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Mri. R Dew, Jim Evans, Ann Griffith, John Griffith, T Ll Hughes, K P Hughes, D R Hughes, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, G O Jones, Richard Owain Jones, R.Meirion Jones, Jeffrey M.Evans, Alun W Mummery, R G Parry OBE a Ieuan Williams |
| **WRTH LAW:** | Ysgrifennydd,<br>Trysorydd,<br>Pennaeth Gwasaneth (Datblygu Economaidd ac Adfywio Cymunedol),<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (RJ),<br>Uwch Gyfrifydd (Cynllunio Strategol a Thrawsnewid) (BD),<br>Cyfrifydd Trysorlys/Cyfalaf (GR),<br>Cynorthwy-ydd Gweinyddol (CS),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Mri. Lewis Davies, Carwyn Jones, H E Jones, R Ll Jones, Raymond Jones, Dylan Rees, Nicola Roberts, Alwyn Rowlands a Dafydd Rhys Thomas |
| **ALSO PRESENT:** | Dim |

---

### 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

### 2 COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Ionawr, 2014.

### 3 ADOLYGU SWYDDOGAETH A DULLIAU GWEITHREDU

Cyflwynwyd - adroddiad gan yr Ysgrifennydd mewn perthynas â thrafodaethau sy'n parhau ynghylch adolygiad o swyddogaethau ac agweddau gweithredol yr Ymddiriedolaeth Elusennol.

Nodwyd bod yr Ymddiriedolaeth Elusennol eisoes wedi penderfynu mewn egwyddor bod angen iddi edrych ar ei chyfansoddiad a'i pherthynas gyda'r Cyngor Sir gyda golwg ar:-

- Gostwng dibyniaeth ar y Cyngor mewn perthynas â gweinyddiaeth ac arweinyddiaeth strategol a phroffesiynol;

- Diogelu'r cyfalaf o fewn yr Ymddiredolaeth er budd Ynys Môn pe bai strwythurau llywodraeth leol yn newid neu'n cael eu had-drefnu yn y dyfodol. Cafwyd cyngor proffesiynol gan Gyfreithwyr allanol ar y materion hyn a bydd angen rhagor o arweiniad a chyngor pan fydd yr Ymddiredolaeth yn glir ynghylch y cyfeiriad strategol y mae'n dymuno ei fabwysiadu i'r dyfodol.

Cafwyd adroddiad cefndir gan yr Ysgrifennydd ar sefydlu Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ers y 1990au, ynghyd â throsolwg cyffredinol o'i chyfansoddiad, yr agweddau ariannol ac amcanion yr Ymddiredolaeth.

Nodwyd bod gan yr Ymddiredolaeth Elusennol lawn dri o Is-Bwyllgorau sy'n cefnogi'r broses gwneud penderfyniadau. Roedd cylchoedd gorchwyl y Pwyllgorau hyn wedi eu hatodi yn Atodiad 'A' i'r adroddiad:-

Pwyllgor Buddsoddi a Chontractau
Pwyllgor Adfywio
Pwyllgor Grantiau Cyffredinol

Nod y cyfarfod oedd adolygu'r gwaith a wnaed gan y Pwyllgorau yn y blynyddoedd diwethaf; ystyried a yw strwythurau'r Pwyllgorau yn addas i bwrpas yng nghyd-destun gofynion i'r dyfodol a chael barn y Pwyllgor ynghylch effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd yr Ymddiriedolaeth yn gyffredinol.

Materion a godwyd gan Aelodau'r Ymddiredolaeth:-

- mae angen 'llawlyfr' sy'n amlinellu pwrpas yr Ymddiredolaeth, y rheolau ar gyfer dyrannu grantiau, y pwerau gwneud penderfyniadau a phwrpas Elusennol yr Ymddiredolaeth;
- materion ynghylch dyrannu grantiau i Oriel Ynys Môn;
- yr angen i edrych ar sut y dylid gweinyddu'r Ymddiredolaeth i'r dyfodol.

Rhannwyd Aelodau'r Ymddiredolaeth wedyn yn 3 grŵp yn seiliedig ar y 3 Is-Bwyllgor yr oeddent yn aelodau ohonynt, a hynny er mwyn trafod materion sy'n berthnasol i'r Pwyllgorau hynny. Cafwyd sylwadau fel a ganlyn gan y 3 Is-Bwyllgor:-

**Pwyllgor Grantiau Cyffredinol**

- Mae angen codi'r trothwy cyfredol o £6k ar gyfer dyrannu grantiau;
- Angen i'r Ymddiriedolaeth lawn gael mwy o gyllid cyflaf i'w wario;
- Mae'r cyfraniad o 30% o ran cyllid cyfatebol ar gyfer grantiau yn rhy uchel i'r sefydliadau ei fforddio. Ystyriwyd y byddai 15% yn fwy fforddiadwy;
- Mae angen edrych ar y Weithred Ymddiredolaeth i egluro materion penodol ynddi.

**Pwyllgor Buddsoddi a Chontractau**

- Trafodaethau ynghylch Buddsoddi'r Ymddiriedolaeth gyda HSBC Investment Management a'r angen i archwilio gwell perfformiad ar gyfer derbyniadau cyfalaf;

- Trafodaethau ynghylch buddsoddi arian yn y dyfodol yn sgil gwerthiant posib y tir yn Rhosgoch;
- Budd Cymunedol posib yn sgil prosiectau ynni mawr ar yr Ynys ac ymarferoldeb Ymddiredolaeth ar wahân i weinyddu gwaddol o'r fath;
- Cwestiynau ynghylch yr angen i fonitro cyllid a dyraniadau grant;
- Trafodaethau ynghylch Aelodaeth o'r Ymddiredolaeth Elusennol a'r posibilrwydd o estyn yr aelodaeth i gynnwys Aelodau Lleyg.

**Pwyllgor Adfywio**

- Cytundeb bod Aelodau'r Ymddiriedolaeth Elusennol angen 'llawlyfr' a fyddai'n cael ei ddiweddaru bob blwyddyn;
- Mae angen cynllun prosiect ac adnoddau penodol ar gyfer proses moderneiddio'r Ymddiredolaeth fel y gellir sicrhau cynnydd gyda phrosiectau heb oedi;
- Sefydlwyd y Pwyllgor hwn i fonitro dyraniadau ariannol i Menter Môn fel cyllid cyfatebol ar gyfer eu Rhaglenni Ewropeaidd. Dywedwyd bod pob £10 a roddir gan y Pwyllgor hwn yn golygu bod Menter Môn yn gallu denu £90 o Ewrop;
- Ystyriwyd y dylid caniatáu i gynrychiolydd o'r Ymddiredolaeth Elusennol wasanaethu ar Fwrdd Menter Môn i fonitro'r dyraniadau ariannol a roddir gan yr Ymddiredolaeth;
- Mae angen adolygu trefniadau gweinyddol ar gyfer y grantiau a chynyddu'r buddsoddiadau cyffredinol ar gyfer prosiectau lleol;
- Awgrymwyd y dylid cynyddu aelodaeth yr Ymddiredolaeth er mwyn caniatáu i aelodau lleyg wasanaethu arni;

Diolchodd yr Ysgrifennydd i Aelodau'r Ymddiriedolaeth am eu sylwadau gan ddweud ei bod yn amlwg bod angen 'llawlyfr' ar gyfer yr Aelodau er mwyn gwella lefel y dealltwriaeth o'r polisïau a sut y dyrennir arian.
Dywedodd hefyd yr ymddengys bod yr Ymddiriedolaeth yn fodlon gyda'r trefniadau i barhau i wahoddiad ceisiadau am grantiau o fis nesaf ymlaen. Fodd bynnag, roedd yn sylweddoli bod yr Ymddiriedolaeth yn dymuno i'r Swyddogion edrych ar y posibilrwydd o ryddhau rhagor o grantiau a chynyddu'r trothwyon o ran cyllid cyfatebol ar gyfer prosiectau gyda Menter Môn. Dywedodd yr Ysgrifennydd y byddai'n paratoi adroddiad ar y mater.

Dywedodd hefyd y byddai Rheolwr-gyfarwyddwr Menter Môn yn cael gwahoddiad i ddod i gyfarfod nesaf yr Ymddiriedolaeth Elusennol i annerch y cyfarfod mewn perthynas â'i fwriadau mewn perthynas â Chynlluniau Ewropeaidd.

Dywedodd yr Ysgrifennydd y byddai'n gwahodd Cyfreithiwr o Weightmans LLP i'r cyfarfod nesaf i arwain yr Aelodau ynghylch cwestiynau sy'n ymwneud â'r Weithred.

Gofynnwyd cwestiynau ynghylch y posibilrwydd o gynnwys Amlwch ar gyfer derbyn dyraniadau ariannol gan yr Ymddiriedolaeth. Roedd Cyngor Tref Amlwch wedi cael swm penodol o arian pan adawodd Shell UK yr ardal. Ar ôl hynny ni chaniatawyd i Amlwch wneud ceisiadau am gyfraniadau ariannol gan yr Ymddiriedolaeth.

Dywedodd yr Ysgrifennydd yn ei ymateb y byddai'r mater hwn yn cael ei godi yn ystod y drafodaeth gyda Weightmans LLP.

Codwyd materion pellach ynghylch gweinyddu'r Ymddiriedolaeth Elusennol yn y dyfodol. Ymatebodd yr Ysgrifennydd y byddai angen paratoi adroddiad mewn perthynas â manteision ac anfanteision sefydliad allanol yn cymryd drosodd y gwaith o weinyddu'r Ymddiriedolaeth. Roedd yr Is-gadeirydd wedi gwneud ymholiadau gyda sefydliadau sy'n delio gydag Ymddiriedolaethau Elusennol o'r fath ac wedi rhoi copi o'r ymateb a gafwyd gan un sefydliad i'r Aelodau. CYTUNWYD i atodi'r ymateb i gofnodion y Pwyllgor hwn.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a'r argymhellion a'r sylwadau a nodwyd uchod.**

## 4 EITEM YCHWANEGOL - TIR YN RHOSGOCH

**EITEM A DRAFODWYD YN BREIFAT**

Cafwyd diweddariad gan yr Ysgrifennydd mewn perthynas â'r angen i gael Adroddiad Llygredd ynghylch y tir yn Rhosgoch fel yr adorddwyd yng nghyfarfod diwethaf yr Ymddiriedolaeth. Nododd y cafwyd cyngor gan DTZ ynghylch manylion adroddiad o'r fath a'r costau posibl. Dywedodd bod y gost ychydig yn uwch na'r trefniadau caffael ac y bydd angen dilyn proses dendro a gwahodd 3 thendr. Mewn ymgynghoriad gyda Chadeirydd ac Is-Gadeirydd yr Ymddiriedolaeth Elusennol, gofynnwyd i DTZ wahodd 3 thendr a bydd Swyddogion yr Ymddiriedolaeth Elusennol yn eu sgorio.

Dywedodd yr Is-Gadeirydd y byddai'n well ganddo weld DTZ yn sgorio'r 3 thendr eu hunain er mwyn osgoi unrhyw oedi yn y broses. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol bod raid i'r Cyngor Sir, fel Ymddiriedolwr, lynu wrth ei ofynion caffael ac y byddai dirprwyo'r gwaith o ddelio gyda thendrau o'r fath i gwmni preifat yn debygol o fod yn annerbyniol. Y cyngor felly yw y dylai'r Ymddiriedolaeth lynu wrth ofynion caffael y Cyngor Sir fel y byddai llai o reswm i herio'r penderfyniad i benodi.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**MR. T. VICTOR HUGHES**
**Cadeirydd**